



## Cofnodion/Minutes

### Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant Community Council

Dyddiad/Date: 13/03/2023 am 7:00 yh/ at 7:00pm

Gynhaliwyd / Held.... Yn y Ganolfan Abergynolwyn

Presennol

Y Cadeirydd Robert Jones a'r Cynghorwyr Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman, Elwyn Evans.

1. Ymddiheuriadau/ Apologies: Steve Lewis. Yn hunan ynysu wedi cael llawdriniaeth.

2. Datgan diddordeb Neb

Cyhoeddwyd fod hyfforddiant ar y gweill ynglyn ar canllawiau ar y pwnc yma gan Gyngor Gwynedd.

3. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd. Cafwyd y cofnodion yn gywir, Eleri Puw yn cynnig a Gwynedd Roberts yn eilio a phawb yn cytuno.

4. Cae Chwarae. Dim i'w adrodd.

5. Mynwentydd. Pob dim yn iawn a'r broblem twrch yn cael sylw.

Emrys wedi gyrru anfoneb i Dei Gabriel am agor lle i lwch

6. Llwybrau £300 wedi dod i mewn i'r cyfrif o Gyngor Gwynedd, Sef yr ad daliad am waith ar eu rhan.

7. Toiledau dal ynghau.

Dylai cael ei ail agor ddiwedd y Mis hwn. Atebion i Lythyr Emrys i Gyngor Gynedd

:- Diffyg toiled Anabl? = Dim arian i ehangu..... Dim dwr cynnes? = Mwyafrif o doiledau ond gyda dwr oer. Sychwr dwylo yn 'dod' yn ol y llythyr, a fod paentio wedi eu wneud.

8. Knotweed:- Pasiwyd i adrodd yn ol gan ddatgan nad oeddem mewn sefyllfa i ariannu gwaith ar dir preifat nad oedd yn eiddo nac yn ffinio gyda tir y Cyngor Cymuned.

9. Gohebiaeth e bost... Pob dim wedi ei rannu. Elwyn wedi tynnu lluniau or car lle rydym wedi derbyn cwyn ac wedi cysylltu a Galw Gwynedd.

Sticeri 20mya wedi eu archebu 2 becyn gan Beth Lawton.

10. Adroddiad Trysorydd.

Emrys yn gweud cais am ad daliad costau (stamps, Proof of postage ayb.) £35.24

Pasiwyd i wneud siec iddo

Un Llais Cymru £91 tal aelodaeth Pawb yn cytuno a gwneud siec am y swm.

Macmillan Cancer Support Gwynedd, Apel am arian. Mae eu cyfrifon ar y we a

chynigiodd Elwyn ein bod yn edrych ar y mater ar ol cael edrych ar y cyfrifon erbyn y

mis nesaf. Ebst wedi ei dderbyn oddiwrth unigolyn am arian tuag at gael beic i blentyn

pedair oed yn Ysgol Hafod Lon. Er ei fod yn fater digon teilwng y teimlad oedd nad

oedd arian y Cyngor i gael gwariant ar bethau unigol i berson oedd ddim yn ein ardal ni Emrys wedi anfon ebost ynghylch y taliadau i'r Cynghorwyr ac atgoffa bod angen i anfon yn ol ato os nad oeddem am dderbyn y swm sydd yn ddilys i'n digolledu. Cafodd pawb sic o gyfrif y Cyngor.

11. Cynghorydd Beth Lawton :- Adrodd yn ol nad oes yna lwc recriwtio i gael gwelliant yn sefyllfa Doctoriaid yn Nhywyn.

Pennaeth o Betsi sydd yn byw yn yr Amwythig yn rhoi cynnig ei bod hi yn hyrwyddo mwy ar cyfryngau cymdeithasol ac by cynnig efallai sa da o beth i ddefnyddio Aberdyfi yn lle Tywyn oherwydd fod pawb sydd yn edrych ar y we yn holi am y gwasanaeth lechyd yn Nhywyn, yn dod ar draws yr holl newyddion negyddol sydd o fewn yr ardal, ac yn cwyno am y sefyllfa. Mae hyn yn eitha tebyg o roi ymgeiswyr i ffwrdd ac nid ei denu i'r swydd.

Ambiwllans Awyr wedi datgan eu bod am ddod i Dywyn i esbonio y sefyllfa ynghyd ar drafodaeth sydd yn mynd rhagddo ar y ddau safle maent yn gweithredu arno ar hyn o bryd. Fe arhoswn i glywed pryd.

10. Ciosgs :- Groesffordd a Minffordd yn gweithio, Tynycornel ddim.

11. Swydd Clerc. Huw Jones wedi gyrru ebost ac yn derbyn y swydd ac yn disgwyl cychwyn fis Medi ond fe fydd wedi dod draw i eistedd mewn pwyllgor ac i gyflwyno eu hyn cyn hynnu. Fe fydd angen cytundeb iddo yn dangos canllawiau a chyflog a chostau. Cytunodd Elwyn i ofyn i Un Llais am dempled inni weithio oddiarni.

12. Elwyn wedi cael cyfarfod Un Llais ar 15/02/23 Liz Saville Roberts a Phill Hill oedd y siaradwyr Gwadd a rhoddi cyflwyniad.

Natur y Tlodi yn Ngymru, ac off Grid- lefel cefnogaeth sydd yn is nac yn Lloegr oedd y ddau bwnc o dan drafodaeth.

Cronfa Ffyniant Bro – Cronfa newydd yn lle arian Ewrop.

Gwasanaeth lechyd, Holiadur ar y ffordd, a hyn yn arwain y drafodaeth ynglyn a phryder gyda lleoliad Hofrenyddion yr Ambiwllans awyr. Phill Hill:- De Ffib ddim yn berthnasol i'r Cyngor Cymuned ond yn bosib rhoi cyngor i'r Ganolfan chwilio am grantiau sydd ar gael tuag at gostau rhedeg yr unedau. Urdd Sant Ioan yn rhoddi cefnogaeth i ddysgu pobl i'w ddefnyddio.

13. Safle Treftadaeth. Plac Mawr Hysbysu yn cael ei osod yn fuan ar y Ganolfan. Cyfarfod a Lucy Thomas Zoom 31/03/23. Angen holi oes modd ariannu y Gert Lechi? Mae angen ychwanegiad i'r arwyddion i'r safleoedd sydd dan sylw yn yr ardal Lechi.

14. Ardal Ni 2035. Dim pellach i adrodd

15. Independent Remunerations Panel Prif bwyntiau, Taliad Blynnyddol o £156 yr un ar gael i'r cynghorwyr, pasiwyd fod hawl i Gynghorwyr hefyd rhoi cais i mewn am gostau ychwanegol. (£52 ar gael tuag at brintio a phostio ayb.)

16. Pasiwyd gyrru llythyr i'r Ganolfan i holi am ganiatad am 'filing Cabinet' ychwanegol.

17. Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf?

Cytunwyd ar 18ed Ebrill gan fod y noson arferol yn glanio ar wyl y Banc. (Nos Lun y Pasg.

Cyfarfod Blynnyddol a chyffredinol ar y 17eg Mai gan fod cyfarfod mis Ebrill wedi mynd yn hwyrach nag arfer a bod gwyliau banc ychwanegol.

Cyfarfod yn dod i ben 8.50yh.

Dim i adrodd ar cartef Mari Jones

Present

The Chairman/Chair Robert Jones and Councilors Bethan Lawton, Eleri Puw, Emrys Thompson, Miriam Webb, Gwynedd Roberts, Dylan Jarman, Elwyn Evans.

1. Apologies: Steve Lewis. In self isolation having had surgery.
2. Declaration of interest.....nothing advised

It was announced that a training programme is underway regarding guidelines on this subject by Gwynedd Council.

3. Everyone was welcomed by the Chairman. The minutes were accepted, Eleri Puw proposed and Gwynedd Roberts seconded and everyone agreed.

4. Playground. Nothing to report.

5. Cemeteries. All is well and the mole situation is receiving attention

Emrys sent an invoice to Dei Gabriel for opening a place for cremated remains.

6. Footpaths £300 has been received from Gwynedd Council, which is the reimbursement for work on their behalf.

7. Toilets still closed opening at the end of this month. Answers to Emrys' Letter to Gwynedd Council  
Lack of Disabled toilet? = No money to expand..... No hot water? = Most toilets only with cold water.  
A hand dryer to be installed according to the letter, also that painting had been done.

8. Knotweed:- It was passed to report back stating that we were not in a position to finance work on private land that was not owned or bordered by Community Council land.

9. Correspondence by mail... Everything has been shared. Elwyn took pictures of the car we have received complaints about and contacted Galw Gwynedd.

20mph stickers ordered 2 packs from Beth Lawton.

10. Treasurer's Report.

Emrys made a request for reimbursement of costs (stamps, Proof of postage etc.) £35.24

It was passed to issue him a cheque.

One Voice of Wales fee is due £91 Everyone agreed to pay this amount.

Macmillan Cancer Support Gwynedd, Appeal for money. Their accounts are on the web and Elwyn proposed that we look at the matter again after having a look at the accounts

Email received from an individual about money towards getting a bike for a child aged four at Ysgol Hafod Lon. Although it was a worthy enough issue the feeling was that it was not appropriate as the child was not from the area.

Emrys has sent an email regarding the payments to the Councilors and that he needed notifying If anyone did not want to receive the amount that is available. Everyone got a cheque from the Council's account.

11. Councillor Beth Lawton :- Reported back that there is no luck on staff recruitment towards getting an improvement in the situation regarding lack of Doctors in Tywyn.

A head from Betsi who lives in Shrewsbury proposed that she promotes on social media and it was suggested that maybe it would be a good idea to use Aberdyfi instead of Tywyn because anyone who looks on the web searching about the Health service in Tywyn, comes across all the negative news within the area and complaints. This negativity could be putting candidates off and not attracting them to the job. She is visiting the area shortly to see for herself.

The Air Ambulance have stated that they want to come to Tywyn to explain the situation regarding the discussion that is going on at the two sites they are operating on at the moment. Date to be announced soon.

10. Kiosks :- Groesffordd and Minffordd working, Tynycornel not.

11. Position of Clerk. Huw Jones has sent an email and accepts the job and expects to start in September, but he will come over to sit in a committee and to meet us all before taking up the position. He will need an agreement showing guidelines and salary and costs,. Elwyn agreed to ask Un Llais for a template for us to work from.

12. Elwyn had a Un Llais meeting on 15/02/23 Liz Saville Roberts and Phill Hill were the Guest speakers and gave a presentation.

The Nature of Poverty in Wales, and being off Grid - the level of support being lower than in England were the two topics under discussion.

Shared Prosperity Fund – A new fund to replace European money.

Health Service, Questionnaire on the way, and this lead to the discussion regarding concern with the location of the Air Ambulance Helicopters.

Phill Hill:- De fib not relevant to the community council but advice available to the Ganolfan on where to look for grants towards the running costs of the units.

13. Heritage site. A Large Notice Board will soon be placed on the Ganolfan. Meeting with Lucy Thomas Zoom 31/03/23. Need to ask if it is possible to finance the slate wagon? More signs are needed for the sites in question in the Lechi area.

14.Ardal Ni 2035. Nothing further to report

15. Independent Remunerations Panel Main points, Payments of £156 each advised to the councilors, it was passed that Councilors are entitled to submit an application for additional costs relating to their role. (i.e. £52 available towards printing and postage etc.)

16. A letter to be sent to the Ganolfan to ask for permission for an additional 'filing Cabinet'.

17. Dates of Next Meetings?

It was agreed the next meeting be held on the 18th April as the usual night falls on the Bank holiday. (Easter Monday night.

Annual and general meetings on the 17th May as the April meeting will be held later than usual. And because of the bank holidays.

Meeting ended at 8.50pm.

Nothing to report on the home of Mari Jones

Cyfarfod nesaf:

18/4/2023 @7:00yh

Next meeting:

Llofnod y Cadeirydd/ Chair Signature

Dyddiad/Date

clerc.cyngor.llanfihangel.council@gmail.com